**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED BRO CERNYW**
**7:30YH MAWRTH 29AIN 2023**
**CYNHALIWYD YM MHANDY TUDUR**

**1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU**

**1.1** Croesawyd bawb gan Clwyd Roberts (CR)

**1.2** Presennol: Jane Roberts (JR), Ann Vaughan (AV), Myrddin Davies (MGD), Diane Roberts (DR), Mark Davies (MD), Sara Thomas (ST), Gwydion Jones (GJ), Einir Williams (EW), Catrin Griffiths Clerc (CWG)

**1.3** Ymddiheuriadau: Austin Roberts (AR)

Croesawodd CR hefyd aelodau'r cyhoedd i'r cyfarfod oedd wedi gofyn i gael siarad o flaen llaw yn y cyfarfod - Non Davies a Julia Parry.

**2 DATGANIAD DIDDORDEB**

Mynegodd AV ddatganiad o ddiddordeb yn eitem 6.3.

**3 COFNODION I'W GWIRO 22AIN CHWEFROR 2023**

Cynnigwyd yn gywir gan MGD ac eilwyd gan JR.

**4 MATERION YN CODI**

11- Mynegwyd fod Dei yn barod i dorri gwair am flwyddyn arall.
Mae'r arwyddion i fyny o ran baw ci ers wythnos ond er hyn mae ychwaneg o fagiau wedi ymddangos yn hogian ar y brigau, mynegwyd siom am hyn.
Cae tu ôl i'r ysgol – y drafodaeth yn parhau (AR)

**5 CEISIADAU CYNLLUNIO**

**5.1** 0/50533: Bwthyn Gwennol – torri leilandai – dim sylwadau, pawb yn cefnogi.

**5.2** 0/50557: DR heb allu agor y cais - cymeradwywyd gan bawb.

**5.3** 0/50566: Teulu ifanc yn symud yn ôl i'r ardal, pawb yn cefnogi teulu lleol.

**5.4** 0/50584: Gwrthwynebwyd gan MD oherwydd ymestyn yr amser gallu agor o 8 mis i llawn amser a'r posibilrwydd o bobl yn byw yno yn barhaol. DR heb allu agor. JR yn mynegi pryder am ail-gartrefi. MGD yn dweud y byddai hyn yn rhoi mwy o bwysau ar adnoddau lleol. *EW yn cyrraedd, wedi bod mewn pwyllgor arall*.

**6 MATERION CYNGOR**

**6.1** Biniau baw ci - Austin yn y broses o ddarganfod beth sy'n bosib cael gwneud. Polion telegraff yn iawn, angen dewis pa rai a dewis biniau. EW- bagiau baw ci angen bod yn fioddiraddadwy os yw'r cyngor am eu rhannu. EW yn cynnig fod pob ward yn edrych am bolion addas, pawb sy'n cynrychioli ei ardal i fynd o gwmpas. CR am edrych ar Llangernyw y penwythnos hwn.
Penderfynwyd ar gael 1 bin i Wytherin, 2 i Pandy Tudur (top y pentref ac wrth y fynwent), 3 i Llangernyw – Pont Faen, Cae Criced a Glan Collen felly cyfanswm o 6 angen eu harchebu. Trafodwyd yr opsiynau sydd wedi eu trafod mewn cyfarfodydd blaenorol. EW– angen gwneud yn siwr fod yn bosib cael y bagiau yn hawdd a phris rhesymol. Penderfynwyd archebu rhai coch fel ei fod yn weladwy. *GJ yn cyrraedd*. MD - Bydd angen gofyn am anfoneb a gyrru siec wedyn, pawb yn cytuno i wneud hyn. Trafodaeth am y prisiau a bagiau a beth fyddai'r gwerth am arian orau. MGD yn cynnig i CR benderfynu rhwng opsiwn 1 a 3 o ran argaeledd wrth archebu efo profforma anfoneb, pawb yn gytun. DR yn nodi y bydd y gwariant yn y flwyddyn ariannol newydd.

DR wedi gweld aelodau o'r cyhoedd gyda chŵn yng nghae chwarae Gwytherin, dweud fod ganddynt lythyr o gyngor Conwy yn dweud fod ganddynt ganiatad i ymarfer eu cŵn ers 2 flynedd, fodlon ei weld os oes angen. Pawb yn cytuno i ofyn wrth Austin am ymchwilio i'r mater i weld os oes cofnod gan y sir.

**6.2** Swyddog Gweithredol/Clerc – croesawyd CWG i'r swydd. EW yn son fod angen bwrw ymlaen gyda phrynu gliniadur sydd wedi ei basio mewn cyfarfod blaenorol a'i gyllido. Am rannu linc efo pob cynghorydd. Wedi gweld cynnig un am £280 a byddai angen prynu 'Microsoft package' yn ychwanegol. DR yn son ei fod yn bris rhesymol. Pawb yn cytuno i fwrw ymlaen gyda prynu un ac EW i ofalu am hyn. CWG am ddefnyddio ei hargraffydd ei hun, pawb yn cytuno.

**6.3** Cyfarfod Cyhoeddus Fferm Wynt Moelfre

a) Rhannodd DR adroddiad o'r cyfarfod 27.2.23 oedd wedi ei drefnu gan Gymdeithas Cadwraeth y Berfeddwlad:
Roedd 95 yn bresennol yn Llangernyw gyda chroesdoriad da o gynulleidfa. Fe ranwyd 2000 o daflenni i gartefi gan y Gymdeithas. Cafwyd cyflwyniad ond dim ymgynghoriad efo cynghorwyr sir na chymunedol. Mae Darren Millar ar ddeall gan Bute Energy fod ymgynghoriad drwy Unllais Cymru ond nid yw y fath beth wedi digwydd. Pawb yn y tywyllwch, dim democrataeth, dim llais lleol, maint a graddfa 850m o fewn 70m i gartrefi. Cymharu i pen y gogarth. Cyngor Conwy wedi gwrthod tyrbin 77m yn 2016, rhain yn 3 gwaith yr uchder. Rhai wedi cael gaddo pres ar lythyr ond ddim i datgelu y cytundeb. Bute wedi cychwyn siarad gyda tirfeddiannwr yn mis Medi 2020 cyn dod i eraill ddod i wybod yn Ionawr 2021. Cymru yn cynhyrchu ddwywaith yr ynni mae yn ei ddefnyddio o gwynt y mor – cyrraedd y targed – dim angen tyrbeini ar y tir. Canllawiau y polisi heb eu cyhoeddi eto – swyddi i rai o tu allan – ynni ddim yn ddibynadwy, iechyd a lles, ymchwil heb weld rhai o'r maint hyn. Fflicer, effaith swn, effaith ar gyflyrau iechyd plant, atebolrwydd, effaith ar brisiau tai, llifogydd – Llanfair TH, Llangernyw, Llanelwy. Tirlithriad, ffordd yr A548 yn ddigon peryg yn barod, concrid & haearn, effaith ar gyflenwad dwr, mewn cysylltiad a grwpiau led-led Cymru. Gnweud dim ddim yn opsiwn. Alban – digon yw digon. Barcud coch yr ardal wedi diflannu, newid tirwedd yn mynd i gael effaith ar eraill. EW yn diolch am adrodd yn ol.

b) Aelodau o'r cyhoedd gyda chwestiwn:

<u>Cwestiwn 1:</u>
Mae'r Alban yn ystyried nifer fawr o dyrbeini. Mae ardaloedd wedi eu dynodi, heb dystiolaeth ei fod wedi asesu. Ydi pawb yn ymwybodol o goblygiadau y tyrbeini a gallent newid cymuned yn llwyr? CR yn gofyn am sylwadau i'r cwestiwn. MD yn ategu – polisi gan y cynulliad ddim i ffermydd gwynt yn unig ond i bethau eraill hefyd. Gall ddod a phethau eraill fel hydro a solar ac yn eang iawn. DR yn poeni ei fod am gael gymaint o effaith ar ein hardal a tirfeddiannwyr ddim yn rhannu "y gyfrinach'. DR wedi gweld llythyr gafodd un o drigolion yr ardal gan Bute yn son y byddai yn cael £4000 y flwyddyn i roi fyny gyda'r swn os ddim yn son wrth neb amdano. DR yn atgoffa o'r cod ymddygiad – cynghorwyr i son am unhywbeth sydd yn digwydd yn eu hardal. CR yn aros am gadarnhad o eithriad i hyn.

EW yn cytuno gyda MD ac wedi dysgu llawer am yr oblygiadau o wahanol ffynonellau ac yn credu fod 'mwy iddi' gan awgrymu holi aelodau y Cynulliad beth yw y polisi/ cynllun. CR yn cynnig gofyn wrth Aelod Seneddol i ddod yma i son beth sydd yn y polisi. MGD yn nodi eu bod yma fel cynghorwyr i gefnogi y gymuned yn ei chyfanrwydd, meddwl beth yw rol cynghorwyr – mynd at y polisiwyr – pam fod y cyngor heb gael gwybodaeth. Deddf llesiant y dyfodol – polisi y dyfodol ar draws bob agwedd o bob bolisi a gweithredu – eisiau gwybod mwy am hyn. DR yn cynnig fod yn bosib darllen am hyn ar y we – tudalen 78. Pawb yn cytuno i ofyn wrth Aelod o Cynulliad ddod yma i siarad. Darren Millar a Llyr Huws Gruffydd yn cael eu cynnig. MD yn cynnig fod angen rhywun sydd ar y pwyllgor sydd wedi llunio'r polisi hwn i ddod yma. MGD – pwynt cyntaf fel Darren Millar gan mai fo yw y pwynt cyswllt. Pawb yn cytuno i ofyn wrtho ef. Efallai y bydd y cyfarfod ar zoom. CR am drefnu i gael fwy o wybodaeth am y polisi.

<u>Cwestiwn 2:</u>
Beth ddylai'r gost fod i logi'r neuadd am 2 awr o 7-9? CR – wnaethoch chi ofyn am y gost pan wnaethoch fwcio? Julie wedi cael bil o £50. Nododd Julie ei fod yn gyfarfod cyhoeddus, yn

gwneud gwasanaeth cyhoeddus yn dod a'r wybodaeth i sylw aelodau'r cyhoedd ac maent yn gwerthfawrogi hynny. Gofynnodd Julie sut gafodd y ffi ei godi ac atebodd CR mai dyna y ffi safonol ar gyfer unrhyw achlysur. Eglurodd MGD fod neuadd Canolfan Addysg Bro Cernyw yn cael ei reoli gan Bwyllgor y neuadd ac ar wahan i'r Cyngor Cymuned. Holodd Julie y pwyllgor os ydynt yn teimlo y dylai fod y cyngor cymuned yn cael dylanwad ar y ffi a godir. Esboniodd MD y credai y dylai unrhyw newid yn y ffi fod wedi ei drefnu o flaen llaw. Gofynnodd Julie pwy fyddai yn gyfrifol am hynny? Nododd DR fod y cyngor wedi cyfrannu i ddigwyddiadau yn y gorffennol. MD yn atogffa fod rhaid dilyn y protocol. Julie yn nodi nad oedd yn ymwybodol o unrhyw brotocol ac yn holi os allith y cyngor cymuned gyfrannu at gostau hurio'r neuadd a chyfieithydd. Hefyd, tynnodd sylw at y canllawiau y dylai unigolion nad ydynt yn siarad Cymraeg fod yn gallu deall yr hyn sy'n cael ei drafod.

EW yn ategu beth ddywedodd MD y dylai fod cytundeb cyn y cyfarfod ac os yw'r cyngor yn cyfrannu at hyn yna mae'n gosod sail ar gyfer grwpiau eraill yn gallu gwneud yr un fath ac nid ydynt wedi rhoi cefnogaeth ariannol o'r math yma yn y gorffennol. Awgrymodd eu bod yn gofyn wrth Gronfa Bro Cernyw am arian gyda GJ a CR hefyd yn cefnogi hyn. Nododd CR hefyd fod y praecept ar gyfer cyfraniadau ar gyfer y flwyddyn wedi ei gytuno yn barod.

Gofynnodd CR unwaith eto i Julie os y wnaeth ofyn y pris o flaen llaw cyn llogi y neuadd ac atebodd Julie na wnaeth hi ofyn y pris ond teimlai y dylai y cyngor gyfrannu gan mai dyma ei chymuned hi. Gofynnodd DR os y gwnaeth Betws a Llanfair TH godi ffi a'r ateb oedd swm bychan. Roedd yn rhaid iddynt hefyd dalu am gyfiiethydd am £35 yr awr yn ogystal a chostau teithio. MGD yn nodi fod y neuadd yn cael ei redeg gan bwyllgor y Ganolfan felly tu allan i beth allwn ni ei wneud. Gofynnodd Julie unwaith eto am gymorth gan y cyngor cymuned a MGD yn nodi fod angen bod yn gyson yn delio gyda cheisiadau fel hyn a bod y cynghorywyr yn gwasanaethu pawb yn y gymuned ac y dylent ofyn wrth Gronfa Bro Cernyw am gymorth. Mynegodd DR y byddai yn fodlon cyfrannu £100 o'i phoced ei hun a diolchodd Julie iddi. Pawb ar wahan i Diane yn cytuno y dylent gyfeirio at Gronfa Bro Cernyw am gymorth. AV ddim yn cyfrannu.

**6.4** Adroddiad Un Llais a Chwrs y Gyfraith:

DR wedi bod mewn cysylltiad gyda John Morris o'r Adran Heddlu a oedd yn awgrymu mai y peth gorau i'w wneud fyddai sefydlu grŵp i daclo gor-yrru yn y pentref. DR wedi rhoi posteri i fyny o amgylch pentref Llangernyw (siop, Capel Cwm a safle bws) er mwyn sefydlu'r grŵp ond ni chafwyd unrhyw ymateb. Awgrymodd John os na fyddai yn gallu sefydlu grŵp yna i gysylltu gyda'r grŵp yn Llanrwst gan ofyn os ddawn nhw i fyny i helpu ac fe ellir eu helpu nhw yn ôl hefyd. DR am gofnodi rhifau ceir sydd yn gor-yrru dros y Pasg a bydd cyfarfod arall Un Llais ddechrau fis Ebrill.

DR hefyd yn son am y cwrs gyda Catherine Craven gan nodi fod y cyngor wedi bod heb glerc am gyhyd. Mae goblygiadau iechyd a diogelwch gan fod gan y cyngor cymuned gyfrifoldeb dros bawb yn yr ardal. Soniodd DR am yr 'Annual report – Election Wales Act 2021' a fod hwn yn cael ei wneud. Nododd fod angen paratoi adroddiad yr amgylchedd. Cyngor llawn i arwyddo y precept – hyn yn digwydd. Atgoffodd fod angen nodi unrhyw ddatganiad o ddiben ar y wê - CWG yn ymwybodol fel clerc ac am ei ddiweddaru. Hefyd, CWG am gofrestru gyda'r ICO.

Soniodd DR hefyd am y 'Local Government Act – power of competence'. a phapur gwyn 2021 – a fod goblygiadau i popeth sydd yn cael ei wneud gan y cyngor. Mae Wendy am rannu taflenni a DR yn annog pawb i'w darllen. EW a MGD yn ategu ein bod yn gwneud ein gorau o fewn ein gallu a gwybodaeth. DR – llawer o ddisgwyliadau gan y cyngor ac mae yn gyfraith gwlad. Gofynnodd AV am yr adroddiad am y gyfraith – Catherine am eu roi i Un Llais a nhw i'r cyngor wedyn a bydd angen darllen yn unigol. DR yn ategu eto ei bod yn bwysig i bawb ddeall y goblygiadau.

**6.5** Sedd Wag:
DR gyda enw a chaniatad – John Harris.
EW – cyn cyfethol – angen rhoi rhybudd i fyny. Angen penderfynu os yn mynd am etholiad a dilyn y drefn o rhoi hysbyseb yn y 3 ardal. EW am gysylltu gyda Leanne yn yr adran etholiad a chynnwys CWG.

**7 ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**

Materion yn codi o'r cofnodion - wedi derbyn arwyddion gan y cyngor ynglyn a baw ci ac wedi eu pasio ymlaen i JR .
Arwyddion electroneg - y cyngor yn amcangyfri y byddant yn cael eu gosod ymhen deufis. Bydd Richard Roberts o'r Adran Drafnidiaeth yn cysylltu gyda CR ynglyn a'r lleoliad. Trafodwyd efallai y bydd angen symud yr arwydd 30 yn nes at wrth ddod i mewn i'r pentref.
Ty'r Ysgol, Gwytherin. - Pwyllgor y Ganolfan wedi cychwyn ar y gwaith o roi y Ty yn ol dan ofal y cyngor sir .
Goleuadau ger Stagyard - Mi fyddant yno nes bydd yr adeilad wedi'w wneud yn ddiogel, yr adran briffyrdd ynghyd a'r adran gynllunio yn monitro'r sefyllfa.
Ar y 27/2/23 mynychais gyfarfod cyhoeddus yn Nghanolfan Bro Cernyw yn ymwneud a gynllun cwmni Bute, yng nghwmni Cadeirydd y Cyngor Cymuned a'r Cyng. Ifor Lloyd
Ar 29/3/23 bues allan o gwmpas Llangernyw gyda Emyr Jones o'r Adran Briffyrdd. Buom i Hafod y Gôg i edrych ar y llwybr cyhoeddus , yna ymweld a allt Ty'n Pistyll ac i fyny heibio Dolgoch at y Dafarn Newydd (Holland Arms) . Mae o wedi cytuno i batcho allt Ty'n Pistyll ac i osod "scalpins " ar y mannau pasio rhwng Lead Inn a Dolgoch . Yna, fe ddaethom yn ol i'r pentre ar hyd y ffordd o groesffordd Gosen. Byddaf yn mynd o amgylch Gwytherin a Phandy rhyw bryd yn mis Mai.

Diolchwyd i Austin am ei waith.

**8 MATERION ARIANOL**

MGD wedi gwneud ymholiadau i fancio ar lein yn HSBC Wyddgrug. Byddai angen dynodi *primary user* a chofnodion y cyngor i'w rannu gyda'r banc. Dyma fyddai'r person sydd am wneud y taliadau. Posib cael *secondary user* – i wneud y gwaith yr un fath a'r cyntaf neu i edrych ar y taliadau. Angen llewni taflenni ar lein – MGD gyda linc – bydd angen i'r llofnodwyr presennol yrru llythyr i ddweud eu bod yn cytuno.

Bydd angen penderfynu ar derfyn gwariant dyddiol, nodi ei fod wedi ei drafod ar y cofnodion a'r cyngor wedi cytuno i fancio ar lein. Llofnodwyr presennol i gadarnhau hyn. Bydd talu gyda siec yn parhau gyda 2 lofnod. AV yn son fod hyn wedi digwydd mewn pwyllgor arall. CR– angen symud gyda'r oes – pawb yn cytuno i fwrw ymlaen. Diolchwyd i MGD am ei waith. MGD yn cynnig iddo ef fod yn *secondary user* ac i'r clerc fod yn *primary*. Pasiwyd yn unfrydol gan y cyngor. O ran y terfyn gwariant dyddiol, bydd llawer o daliadau mawr i ddod yn fuan. MD yn awgrymu y dylid talu rhai mawr gyda siec. MGD – nifer i'w talu gyda'i gilydd, weithiau yr un diwrnod. Pawb yn cytuno i'w osod ar £15,000 a DR yn cynnig fod angen adolygu y gwariant dyddiol mewn rhai misoedd. MGD – angen derbyn y cofnodion y mis nesaf cyn gallu symud ymlaen.

**9 GOHEBIAETH**

Dim wedi dod i law

**10 BILIAU**

Enlli £175.72, cytunwyd i dalu.

**11 MATERION LLEOL**

Diolchwyd i Enlli am ei gwaith.

EW – bydd angen trafod y polisi iaith a cyfieithwr y tro nesa.
DR – Brookhouse – wedi penderfynu rhoi tystysgrif cyfreithlondeb trigfan ond ceespit ddim yn gweithio. MD– cyngor ddim wedi derbyn treth. DR wedi gwneud ymholiadau pellach gyda'r cyngor a dim newid i benderfyniad y cyngor fel a drafodwyd yn y cyfarfod diwethaf. MD - oherwydd y tystysgrif mae yn anedd erbyn hyn. MD– beth yw'r meini prawf ar gyfer cael y tystysgrif? Daily Post, Times, BBC yn ymwybodol.
MD– cwyn am y coed ond y perchennog wedi gofyn am ganiatad i'w torri. DR – gwreiddiau y coed yn codi tarmac. Clawdd yr ardd goffa – angen brestio yn ôl
GJ – cwyn am faw ci yn Pandy. JR wedi rhannu arwyddion i GJ roi i fyny.
MD wedi ail-osod yr arwydd yn y fynwent ar 2 bolyn - diolchwyd iddo.
JR– diolch i MD am baentio'r safle bws.
AV – tybiau blodau – rhew ac eira wedi lladd rhai planhigion wrth y Cwm. Oes bosib cael arwyddion beiciwch yn saff efo'r tymor yn newid – penderfynwyd cysylltu gyda Austin i ofyn am hyn.

12 **CYFARFOD NESAF**
26ain Ebrill 2023 yng Ngwytherin
Cyfarfod yn dod i ben 9:30y.h
Cymerwyd y cofnodion gan CWG.